Compact rhwng

Y Trydydd Sector yng Ngwynedd a Chyngor Gwynedd

DOGFEN YMGYNGHOROL

DYDDIAD CAU YMGYNGHORI – IONAWR 5ed, 2009

SYLWADAU AT:-
Bethan Russell Owen
Prif Swyddog
MANTELL GWYNEDD
24-26 STRYD FAWR
CAERNARFON, Gwynedd
LL55 1RH

RHAGAIR

Mae perthynas iach ac adeiladol rhwng y Trydydd Sector a'r Cyngor yn allweddol i les y sir ac yng Ngwynedd, bu'r Cyngor a'r sector yn cyd-weithio ar sawl lefel ers blynyddoedd. Yn wir mae'r berthynas hon wedi tyfu, ac wedi darparu llawer bûdd i drigolion y Sir.

Comisiynwyd gwaith mapio'r Trydydd Sector yng Ngwynedd yng Ngwanwyn 2006 er mwyn cael y ffeithiau, a chael gwybod am werth ystadegol y Sector o fewn y Sir. O'r gwaith ymchwil hwnnw, daeth yn amlwg fod y sector yn chwarae rhan hanfodol ym mywydau trigolion y Sir yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Felly, mae'r cydweithio rhwng y Cyngor fel un o'r sefydliadau cyhoeddus mwyaf yn y Sir, gyda'r Trydydd Sector yn hanfodol. Ym mis Mawrth 2003, cyhoeddwyd Compact – cytundeb rhwng y Cyngor a'r Sector yn y Sir yn sail ar gyfer y cydweithio. Erbyn hyn, daeth yn amser i gael golwg eto ar y Compact, a'r cydweithio rhwng y Cyngor a'r Sector, gobeithiwn fod y ddogfen hon yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd eisioes.

Saif yr un egwyddor cyffredinol sef bod modd gweithredu er lles pobl Gwynedd yn fwy effeithiol trwy gydweithio. Byddwn yn cydweithio i feithrin y bartneriaeth ymhellach ar sail egwyddorion gonestrwydd, tryloywder, ymddiriedaeth a pharch at y naill a'r llall.

Mae'r ddogfen hon yn gosod cyfrifoldebau a disgwyliadau cynyddol ar y Cyngor a'r Sector wrth gydweithio.

Rydym ar ran Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector yn cymeradwyo'r cytundeb hon ac yn ymrwymo i weithredu ei chynigion.

Arwyddwyd:

Arweinydd Cyngor Gwynedd

Cadeirydd Mantell Gwynedd

Pwrpas y Compact

Yn Nhachwedd 1998 cyhoeddwyd Compact rhwng Llywodraeth San Steffan a'r Sector Wirfoddol yn genedlaethol, ar gyfer cydweithio yn well. Yn raddol, mabwysiadwyd y syniad yn fwy lleol, ac erbyn Mawrth 2003 cyhoeddwyd y Compact cyntaf yng Ngwynedd.

Pwrpas y Compact hwn, sydd wedi ei adolygu, ydyw ffurfioli rhai elfennau o'r berthynas er mwyn hwyluso, a gwella'r cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd a'r Sector o fewn y Sir ymhellach.

Yn fwriadol – mae'r Compact wedi ei llunio yn gryno, ond mae manylder pellach i'w gael yn yr atodiadau.

Atodiad A	-	Codau ymarfer
Atodiad B	-	Ymrwymiadau
Atodiad C	-	Pwyntiau gweithredu i'w hystyried ymhellach

NOD AC AMCANION Y COMPACT

Nod y Compact ydyw amlinellu gwerthoedd ac egwyddorion ar gyfer perthynas cydweithio iach rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector, ond hefyd i weithredu fel canllaw ymarferol ar sut i weithredu'r berthynas, a nodi pa gamau ymarferol sydd i'w cyflawni drwy'r Grŵp Cyswllt y Cyngor a'r Trydydd Sector er mwyn gwella a datblygu'r cydweithio sydd eisioes yn bodoli.

Er mai cytundeb rhwng y Cyngor a'r Trydydd sector yw hwn ar hyn o bryd, mae dyhead i wethio tuag at gytundeb ehangach gyda phartneriaid Gwynedd ar Y Cyd.

Amcanion Compact Grŵp Cyswllt Cyngor a'r Trydydd Sector Gwynedd ydyw:

- Gwella dealltwriaeth rhwng y Sector a'r Cyngor ar sawl lefel.
- Gwella'r cydweithio rhwng y Cyngor a'r Sector ar lefel weithredol a strategol.
- Gwella'r cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r Sector.
- Sicrhau fod y berthynas rhwng y Sector a'r Cyngor yn arwain at ddeilliant a gwerth ychwanegol i drigolion Gwynedd.

Egwyddorion a Gwerthoedd Sylfaenol

Bydd amcanion y Compact a gweithredoedd y Grŵp Cyswllt wedi eu sylfaenu ar yr egwyddorion a'r gwerthoedd canlynol:

- Cydnabyddiaeth o werth a chyfraniad y naill a'r llall
- Cydnabyddiaeth o'r cyfyngiadau ar y Cyngor a'r Sector
- Yr angen i weithio mewn partneriaeth ac yn gynhwysol

- Ymrwymiad i weledigaeth Gwynedd ar y Cyd (Strategaeth Gymunedol Gwynedd)
- Gweithredu mewn modd agored, gonest ac atebol am eu cyfrifoldebau

GRŴP CYSWLLT SECTOR GWIRFODDOL - CYLCH GORCHWYL

Mae'r Compact yn cael ei weithredu gan Grŵp Cyswllt Sector Gwirfoddol a Chyngor Gwynedd. Rôl y Grŵp Cyswllt fydd goruchwylio a sicrhau fod y Compact yn cael ei weithredu, ac hefyd am lunio Cynllun Gweithredu i wireddu materion sy'n codi o'r Compact.

Nodau ac Amcanion y Grŵp Cyswllt:

- Cefnogi'r Sector Wirfoddol a'r Cyngor i gyflawni'r amcanion osodwyd yn y Compact.
- Rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am anghenion, barn a phryderon y Sector Gwirfoddol.
- Hwyluso cyd-weithio rhwng y Cyngor a'r Sector.
- Cyfeirio, fel sy'n briodol materion sydd gerbron Pwyllgorau'r Cyngor i sylw'r Sector.
- Sicrhau fod cyfathrebu parhaus yn digwydd rhwng y Sector a'r Cyngor.
- Ceisio gosod targedau ar gyfer ei raglen waith blynyddol er mwyn dangos cynnydd ac asesu gwerth ychwanegol gwaith y Grwp
- Cynnig gorolwg strategol ar ddyraniad grantiau'r Cyngor i'r Sector.
- Sicrhau bod trefniadau cyllido'r Cyngor ar gyfer y Sector yn gyson.

Aelodaeth:

- 9 Aelod o Gyngor Gwynedd – Gan gynnwys Cadeiryddion neu Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor.
- 11 Cynrychiolydd o'r Trydydd Sector wedi eu hethol bob 2 flynedd (bydd y gynrychiolaeth o'r Sector yn adlewyrchu meysydd craffu'r Cyngor)
- Bydd dirprwyon/ eilyddion yn cael eu henwebu i gymryd lle aelod os nad yw'n gallu mynychu cyfarfod.
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'w hethol yn flynyddol – un o'r Cyngor, a'r llall o'r Sector pob yn ail.

Ysgrifenyddiaeth

Bydd Ysgrifenyddiaeth y Grwp yn cyfnewid rhwng y Cyngor a'r Sector ar sail trafodaeth am y capasiti i ddarparu'r gwasanaeth

Cyfarfodydd:

- Bydd y Grŵp yn pennu dyddiadau cyfarfodydd ei hunan ac yn cyfarfod o leiaf unwaith bob 3 mis.

BLAENORIAETHAU GWEITHREDU

Mae'r Grŵp Cyswllt yng Ngwynedd yn awyddus i symud cyfeiriad ei waith tuag at lefel fwy strategol, ac yn awyddus i'r hyn gaiff ei argymell i ychwanegu gwerth a gwneud gwahaniaeth.

O'r adolygiad hwn mae nifer o bwyntiau gweithredu posib – rhai o natur gweithredol ac eraill yn fwy strategol (caent eu rhestru yn Atodiad C). Bydd y Grŵp Cyswllt yn sicrhau mai meysydd penodol â'r impact mwyaf -fydd yn cael y flaenoriaeth.

Awgrymir y dylid canolbwyntio ar y meysydd gweithredu isod, ac ystyried y dulliau a nodir fel modd o'u gwireddu:

MATER SYDD ANGEN SYLW	DULL CYFLAWNI DEILLIANT
Er mwyn sicrhau fod y Sector Wirfoddol yn cael cyfle i ddylanwadu a lleisio barn am faterion o bwys yn y Cyngor (boed yn faterion gweithredol neu strategol/ polisi), rhaid sicrhau cyfundrefn i roi llais i'r Sector yng nghyfundrefn Craffu'r Cyngor.	Datblygu trefniadau i gael mewnbwn y Trydydd Sector i gyfundrefn Craffu'r Cyngor drwy ethol cynrychiolwyr o'r trydydd sector ar sail sectorau sy'n cysgodi meysydd pwyllgorau craffu'r Cyngor. Sicrhau hyfforddiant priodol i gynrychiolwyr y trydydd sector yn ogystal a chadeiryddion y pwyllgorau craffu ar hwyluso deialog a mynediad i lais y Sector yng nghyfundrefn craffu'r Cyngor.
Dileu rhwystrau di-angen sy'n ei gwneud yn anodd i'r Sector weithredu.	Datblygu dulliau ar gyfer pontio a dileu unrhyw rwystrau sydd yn y berthynas rhwng y Cyngor a'r Sector, ond hefyd unrhyw rwystrau i'r Sector y teimlir y gallasai'r Cyngor fod o gymorth i'w dileu neu eu lliniaru.
Codi ymwybyddiaeth o ddylanwad a chyfraniad all/ mae'r sector yn ei wneud o fewn cymunedau yng Ngwynedd, ac ystyried hynny wrth gydweithio a chyd-gynllunio ar lefel strategol a gweithredol rhwng y Sector a'r Cyngor Gwynedd, heddiw ac i'r dyfodol.	Sicrhau fod Aelodau o Gyngor Gwynedd yn ymwybodol o faint cyfraniad mae'r Sector yn ei wneud o fewn y Sir, ac hefyd Uwch-Reolwyr y Cyngor. Cyflwyno darganfyddiadau'r gwaith ymchwil i'r sector iddynt.
Sicrhau fod cyfathrebu clir gyda'r Sector pan fyddo penderfyniadau yn cael/ yn mynd i gael eu gwneud allasai effeithio'r Sector.	Datblygu sianelau cyfathrebu clir – a chodi ymwybyddiaeth y Sector o faterion sy'n cael eu trafod o fewn y Cyngor allai eu heffeithio, mewn da bryd.
Mesur effaith a gwaith y Compact, ac hefyd y Grwp Cyswllt.	Sefydlu dangosyddion perfformiad ar gyfer y Grŵp neu/ a'r Compact, gan ystyried datblygu set o ddangosyddion o'r gwaith ymchwil – er mwyn dangos fod gwelliant yn cael ei wneud a deilliant o'r berthynas rhwng y Sector a'r Cyngor. Yn ogystal – adolygu'r Compact, a chynnal hunanarfarniad o waith y Grwp Cyswllt

GWEITHREDU, MONITRO AC ADOLYGU

Mae'r Cyngor a'r Sector drwy gyfrwng y Grwp Cyswllt yn cytuno i:

1. Rannu cyfrifoldebau a dangos ymrwymiad i weithredu ac adolygu'r Compact.
2. Ymrwymo i gynnal hunanarfarniad o'r Grŵp Cyswllt yn rheolaidd, er mwyn medru gwerthuso'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Sector.
3. Fonitro ac adolygu'r amcanion a osodwyd yn y gytundeb
4. Sefydlu dangosyddion perfformiad, a'u monitro er mwyn adolygu effeithlonrwydd y Grŵp
5. Adolygu Aelodaeth o'r Grŵp Cyswllt bob 2 flynedd.

Caiff y Grŵp Cyswllt adroddiadau monitro ac adolygu ar elfennau penodol o'r Compact a sut mae'n cael ei weithredu. Bydd yn rhaid i'r Grŵp Cyswllt gadw golwg ar effeithlonrwydd y Grŵp ei hunan drwy gynnal hunanarfarniad er mwyn sicrhau fod y berthynas rhwng y Cyngor a'r Sector yn ateb y gofynion, ac yn gwneud gwahaniaeth, - er gwell.

ATODIADAU.

Atodiad A

CODAU YMARFER

Yn yr Atodiad hwn ceir 4 côd ymarfer sy'n gosod fframwaith gweithredu ar gyfer 4 maes penodol;

- Cyfathrebu ac ymgynghori
- Adnoddau a Chefnogaeth
- Gweithio mewn partneriaeth
- Côd Gwirfoddoli

Fframweithiau ydyw'r codau, fel bod dealltwriaeth clir o raniadau a rôl rhwng y Cyngor a'r Sector.

Mae pwyntiau gweithredu yn dod i'r amlwg er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol o'r codau ymarfer hyn. Caiff y pwyntiau gweithredu eu hargymell i raglen waith y Grŵp Cyswllt, ond bydd blaenoriaeth gwaith yn cael eu pennu gan y Grŵp.

Cydnebir y bydd angen datblygu'r codau yn y dyfodol wrth i'r Compact ddatblygu.

CÔD YMARFER CYFATHREBU AC YMGYNGHORI

Amcan: Cael effaith gadarnhaol ar y modd mae'r Cyngor yn ymgynghori, gwneud penderfyniadau ac yn gofyn am gymeradwyaeth ar bolisiau sydd yn ymwneud â'r Sector Wirfoddol a fel arall, ac hefyd, gwella'r broses o rannu'r gwybodaeth a chyfathrebu rhwng y Cyngor a'r Sector.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i:

- Sicrhau fod y broses o ymgynghori â'r Sector yn cael ei wneud mor fuan â phosib, yn enwedig felly pan fyddo mater neu bwnc yn amharu ar y Sector.
- Sicrhau fod llais y Sector yn cael ei glywed drwy ei gyfundrefnau penderfynu a llywodraethu a thrwy hynny sicrhau mynediad i lais y sector mewn penderfyniadau allai amharu arnynt.
- Cyfathrebu'n effeithiol ac effeithlon yn enwedig pan fyddo angen hysbysu newidiadau mewn amodau cytundebau (e.e. Cytundebau Lefel Gwasanaeth), neu pan fyddo penderfyniad yn cael ei wneud a fyddai'n cael effaith neu ymyrraeth ar y Sector.
- Ymgynghori'n ystyrlon ar faterion sy'n berthnasol i'r Sector gan ganiatau amser rhesymol ar gyfer ymgynghoriadau.
- Osod y fframwaith ar gyfer ymgynghori yn eglur ar gychwyn proses, gan egluro os oes unrhyw gyfyngiadau e.e. bod rhai penderfyniadau wedi eu gwneud eisioes, neu os oes opsiwn penodol yn cael ei ffafrio.
- Sicrhau fod y math o ymgynghoriad yn berthnasol ac yn dderbyniol yn unol â'r sefyllfa unigol, gan edrych ar ffyrdd adeiladol newydd o gynnwys y Sector.
- Gynhyrchu dogfennau ymgynghori cryno a chlir ac mewn iaith syml; gan sicrhau fod dogfennau ar gael mewn ffurf arbennig os oes galw am hynny.
- Rhoi sylw i sylwadau gaiff eu gwneud, gan esbonio sut ymgorfforir sylwadau ac egluro os na fydd sylwadau wedi eu hymgorffori.
- Sicrhau adnoddau digonol i gynnal ymgynghoriadau llawn a chynhwysol.

Bydd y Sector yn ymdrechu i:

- Ymateb yn brydlon i ymgynghoriadau.
- Sicrhau fod eu hymatebion yn adeiladol, yn eglur o ran cynnwys y sylwadau a phwy sy'n gwneud y sylwadau
- Sicrhau bod ymatebion yn cynrychioli barn eang ar draws y Sector
- Ddangos y gwahaniaeth rhwng ymateb sy'n seiliedig ar farn unigolyn a barn grŵp ehangach.
- Sicrhau fod ymatebion yn gynhwysol a chyfranogol.
- Gydweithio gyda'r Cyngor i drefnu ymgynghoriadau effeithiol ac effeithlon.
- Ganiatau amser rhesymol i'r Cyngor fedru ymateb i unrhyw ymgynghoriad gan y Sector sy'n berthnasol i unrhyw agwedd o waith y Cyngor.
- Adael i'r Cyngor gael gwybod os oes sefydliadau/ mudiadau eraill y dylid ymgynghori â hwy.
- Cyfathrebu'n effeithiol ac effeithlon yn enwedig pan fyddo angen hysbysu newidiadau mewn amodau cytundebau (e.e.gallu i gyflawni Cytundeb Gwasanaeth), neu pan fyddo penderfyniad neu weithrediad yn cael ei wneud a gaiff effaith neu ymyrraeth ar y Cyngor.

CÔD YMARFER ADNODDAU A CHEFNOGAETH

Amcan: Sicrhau bûdd economaidd gorau am arian cyhoeddus, a gwella'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Sector ymhob agwedd o gyllido, a sicrhau fod anghenion yn cael eu hadnabod a bod dulliau newydd o ddiwallu'r anghenion yn cael eu datblygu.

Mae'r cyswllt cyllidol rhwng y Cyngor a'r Sector yn medru bod yn amrywiol;
Cyllido prosiectau – Talu am gynllun neu wasanaeth arbennig, fel arfer drwy gytundeb neu grant.
Cyllid Datblygu – Buddsoddi mewn capasiti newydd neu i wella gallu i gyfrannu tuag at amcanion polisi cyhoeddus – trwy grant fel arfer.
Cyllido Strategol – Ar gyfer sefydliad sydd o bwys strategol – arian grant fel arfer.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i:

- Sicrhau fod prosesau mor hwylus â phosib wrth weinyddu cronfeydd cyllido.
- Gymeryd camau i sicrhau fod gwahanol grwpiau o fewn y sector yn cael mynediad at gyllid
- Drafod risgiau o flaen llaw gan ystyried pwy fyddai yn medru rheoli'r risgiau orau.
- Dalu am wasanaeth cyn fod gwariant yn cael ei wneud, a ble fyddo peidio talu yn peryglu darpariaeth y gwasanaeth, lle mae rheoliadau sydd yn cael eu gosod ar y Cyngor yn caniatau
- Gyhoeddi:
    1. Cynllun cyllido ar symiau sydd ar gael
    2. Meini prawf ar gyfer ceisiadau
    3. Amserlenni cyflwyno, prosesu a chyhoeddi ceisiadau
    4. Canlyniadau penderfyniadau ceisiadau am grant.
    5. Enwau swyddogion sydd yn bwyntiau cyswllt ar gyfer cronfeydd/ ffynhonnellau penodol.
- Fod yn agored a gwrthrychol wrth asesu ceisiadau yn erbyn y meini prawf.
- Sefydlu gofynion monitro rhesymol a dangosyddion perfformiad realistig yn ôl maint y cyllid.
- Rhoi gwybodaeth mewn da bryd pan fyddo cytundebau neu grant yn dod i ben.

- Gefnogi'r sector a grwpiau gwirfoddol drwy roi cefnogaeth adnoddau eraill, heblaw cyllid.

Bydd y Sector yn ymdrechu i:

- Sefydlu trefniadau rheolaethol a systemau ariannol clir ac effeithiol
- Gydymffurfio â'r angen i fonitro a gwerthuso gweithgareddau yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.
- Gydnabod yn gyhoeddus unrhyw gefnogaeth ariannol dderbynnir gan y Cyngor yn ariannol ac o ran adnoddau eraill.
- Gydnabod y cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor, a'r rheidrwydd arnynt i ymateb i ofynion cenedlaethol.
- Gydnabod mai'r Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb am fod yn atebol am sicrhau fod prosesau cadarn mewn lle wrth ymdrin ag arian cyhoeddus.
- Ymateb i ofynion adrodd a chyfrifo a gwneud hynny'n onest ac agored.
- Gynllunio mewn da bryd er mwyn medru ymateb i wahanol sefyllfaoedd er mwyn cyfyngu effaith negyddol ar ddefnyddwyr a sefydliadau.
- Gytuno termau darparu gwasanaeth cyn cychwyn, a bod yn effro i'r risgiau y mae cyfrifoldeb amdanynt.

CÔD YMARFER GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Amcanion: I weithio mewn partneriaeth yn ysbryd Gwynedd ar y Cyd ac annog a gwella dealltwriaeth a lledaenu gwybodaeth rhwng y Sector a'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i:

- Rhannu gwybodaeth am rôl Aelodau a Swyddogion.
- Parchu rôl cynrychiolwyr i fod yn llais ar ran y sector.
- Gydnabod fod gan y Sector wybodaeth ac arbenigedd allai fod yn werthfawr wrth ddatblygu polisi a gwasanaeth.
- Wella dealltwriaeth o sut mae'r Cyngor yn gweithio ymhlith Aelodau a staff.
- Wneud yn siwr fod trefniadau yn effeithiol er mwyn sicrhau ei bod yn hwylus i gynrychiolwyr o'r Sector gymeryd rhan mewn trafodaethau partneriaethau.

Bydd y Sector yn ymdrechu i:

- Ddatblygu mecanwaith er mwyn annog cyfranogiad ac atebolrwydd.
- Sicrhau fod cynrychiolwyr o'r Sector sydd ar bartneriaethau gyda'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth ag eraill o fewn y Sector.
- Sicrhau fod cynrychiolwyr ar bartneriaethau yn deall eu rôl o fewn y bartneriaeth honno gan gyfrannu'n briodol.
- Rannu'r wybodaeth ac egluro sut mae'r Cyngor yn gweithio.

COD YMARFER GWIRFODDOLI

I'r pwrpas yma, diffinir gwirfoddolwyr fel unigolion sy'n penderfynu gweithio'n ddî-dâl.

Amcan: Parchu gwirfoddolwyr a chydnabod eu gwerth, gan ymdrechu i roi cefnogaeth, a dileu rhwystrau di-angen i waith gwirfoddol.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i:

- Gydnabod gwerth cyfraniad gwirfoddolwyr.
- Gydnabod yr amrywiaeth o anghenion gan Wirfoddolwyr, ac yn ymdrechu i fod o gymorth i gwrdd a'r anghenion hynny.
- Sicrhau fod ffynonnellau ariannol ar gael i gefnogi gweithgareddau gwirfoddolwyr.
- Gyfyngu ar y byrdwn a rhwystredigaethau sydd yn tarfu ar waith gwirfoddolwyr drwy ei bolisiau, strategaethau a gweithdrefnau cyn gymaint ag y bo modd.
- Ymgyrraedd tuag at grwpiau gwirfoddol fyddai ddim yn arferol yn gofyn am gymorth.

Bydd y Sector yn ymdrechu i:

- Barhau i roi cefnogaeth, hyfforddiant ac arweiniad i wirfoddolwyr o bob oed
- Roi cymorth i sicrhau fod Gwirfoddolwyr yn cydymffurfio ag anghenion iechyd a diogelwch, ynghyd a materion pwysig eraill sy'n hanfodol i weithgareddau gwirfoddolwyr e.e. sgrinio priodol, insiwrans.
- Ymgynghori sicrhau llais gwirfoddolwyr allan yn y maes pan fo gofyn am farn o'r sector.
- Gydnabod yr amrywiaeth o anghenion gan Wirfoddolwyr, ac yn ymdrechu i fod o gymorth i gwrdd â'r anghenion hynny.
- Ymgyrraedd tuag at grwpiau gwirfoddol fyddai ddim yn arferol yn gofyn am gymorth.

Atodiad B

YMRWYMIADAU CYFFREDINOL

Mae Cyngor Gwynedd a'r Sector yn ymrwymo ar y cyd i:

- Gydweithio i ddatblygu a gwella safonau eu gwaith a'u gwasanaethau.
- Gynnal safonau llywodraethu gan gyfarfod â gofynion adrodd ac atebolrwydd i'w cyllidwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
- Cydnabod yr angen am ddefnydd o arian cyhoeddus ddaw â'r buddion economaidd gorau.
- Ddatblygu dulliau effeithiol o gyfathrebu.
- Ymateb i broblemau mewn ffordd adeiladol ac agored.
- Ddatblygu a mabwysiadu'r Codau Ymarfer ar gyfer y Compact.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i:

- Ddatblygu'r mewnbwn sydd gan y Sector wrth ddatblygu polisi.
- Gydnabod a chefnogi annibyniaeth y Sector.
- Gydnabod hawl y Sector i fedru herio a rhoi sylwadau ar ddatblygiadau polisi a strategaethau.
- Gydnabod arbenigedd a gwybodaeth o fewn y Sector, a chydnabod gwerth y sector a'r arbenigedd yma wrth ddatblygu polisiau, strategaethau a darparu gwasanaeth.

Mae'r Sector yn ymrwymo i:

- Sicrhau fod systemau atebolrwydd yn eu lle, a bod ymdrech i gyrraedd safonau uchel o ran trefniadau llywodraethu.
- Gydnabod y cyfyngiadau ar Gyngor Gwynedd, boed yn gyllidol, deddfwriaethol neu drwy reolau Ewrop, Llywodraethau Llundain a Bae Caerdydd, a thrwy ddangosyddion perfformiad.
- Gydnabod y rôl penderfynu sydd gan Aelodau etholedig Cyngor Gwynedd, gyda'u cyfrifoldeb i sicrhau'r cydbwysedd rhwng ymateb i anghenion pawb yn y Sir wrth ddyrannu adnoddau a'u cyfrifoldeb wrth arwain y gymuned.
- Ddatblygu trefniadau cyfathrebu effeithiol sydd yn mynd â negeseuon allweddol at drwch aelodau'r Sector.

Atodiad C

Pwyntiau Gweithredu Posib

Mae rhai pwyntiau gweithredu yn cael eu hargymell yng nghorff y Compact, ac yn ogystal, mae nifer o oblygiadau a thasgau posibl yn dod i'r amlwg. Rhai yn faterion y gellir rhoi sylw brys iddynt, ac eraill yn galw am fwy o waith ac amser.

Rôl y Grŵp Cyswllt fydd goruchwylio a sicrhau fod y Compact yn cael ei weithredu, ac hefyd am lunio Cynllun Gweithredu i wireddu materion sy'n codi o'r Compact. Bydd rhaid blaenoriaethu'r gweithgareddau er mwyn sicrhau fod y rhai pwysicaf yn cael sylw, ac yn cael eu gwireddu.

Pwyntiau Gweithredu Posib:

- Sicrhau gweithdrefn i hysbysu'r Sector am unrhyw newid mewn trefniadau cyllido.
- Sector i sicrhau fod cydnabyddiaeth o gefnogaeth ariannol neu fel arall gan y Cyngor ar bamffledi, taflenni cyhoeddusrwydd, arwyddion ayb.
- Adnabod 'pencampwr/wyr' o fewn y Grŵp Cyswllt i sicrhau fod gwerthoedd ac egwyddorion y Compact yn cael eu gweithredu yn y Cyngor, a gan y Sector.
- Hwyluso a chreu mwy o gyfleoedd i'r Sector a'r Cyngor gael trafod a chodi materion/ pryderon.
- Sicrhau fod y Grŵp Cyswllt yn cael llais cryf ar Fwrdd Llywio Gwynedd ar y Cŷd.
- Creu mecanwaith i gael mewnbwn gan y Sector wrth i'r Cyngor ddatblygu polisiau.
- Adnabod y problemau a'r rhwystrau mwyaf i'r Sector.
- Adnabod y grwpiau hynny nad ŷnt yn gofyn am gymorth fel arfer, er mwyn cynnig cymorth iddynt.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad ar gyfer y Grŵp neu/ a'r Compact.
- Sefydlu trefn sicr o adolygu a monitro'r Compact a/neu'r Grŵp.
- Sefydlu trefn hunanarfarnu ar gyfer y Grŵp Cyswllt, er mwyn medru gwerthuso'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Sector.